Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

# Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cyngor Sir Ceredigion

Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y darparwr wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r darparwr oddi ar restr y darparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol.

## Cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd

### A1. Datblygu cynllun strategol ar gyfer y bartneriaeth, gyda gweledigaeth gyffredin yn sail iddo

Yn dilyn arolygiad ym mis Chwefror 2024, mae'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Ngheredigion wedi gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i adolygu ei haelodaeth a'i harferion gwaith.

Mae'r bartneriaeth wedi ehangu ei haelodaeth, ac erbyn hyn, mae'n cynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, Canolfan Gadwraeth Fferm Denmark, Urdd Gobaith Cymru, Cymdeithas Dai Barcud, Swyddog Polisi Iaith Cyngor Sir Ceredigion, Cered (Menter Iaith) a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, yn ogystal ag aelodau presennol o Gyngor Sir Ceredigion, Coleg Ceredigion/Coleg Sir Gâr, Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth, Dysgu Cymraeg, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion, Cymru'n Gweithio, TUC Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, am eu rhesymau gweithredol eu hunain, mae Addysg Oedolion Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi tynnu'n ôl o'r bartneriaeth. Mae cysylltiadau â sefydliadau, fel Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Cymru'n Gweithio, a phartneriaid o fewn yr awdurdod lleol, fel y rheolwr corfforaethol ar gyfer dysgu gydol oes a sgiliau, yn galluogi'r bartneriaeth i ddeall anghenion dysgu cyflogadwyedd ystod eang o oedolion.

Mae'r bartneriaeth newydd wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Ei gweledigaeth yw darparu cyfleoedd i'r holl oedolion yng Ngheredigion gyflawni, ac mae wedi'i chysylltu'n briodol â'r dyheadau a nodwyd yn strategaeth gorfforaethol yr awdurdod lleol.

Mae'r bartneriaeth wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'w strwythur, ac mae wedi dewis datblygu 'cynghrair strategol' â'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Gâr. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Ngheredigion wedi penodi ei rheolwr tîm ar gyfer dysgu a sgiliau ôl-16 i gadeirio'r bartneriaeth, tra bod is-bennaeth Coleg Ceredigion/Coleg Sir Gâr yn gweithredu fel is-gadeirydd y bartneriaeth. Mae cadeirydd partneriaeth Ceredigion yn aelod o'r grŵp gweithredol ym mhartneriaeth Sir Gâr, tra bod is-bennaeth Coleg Ceredigion/Coleg Sir Gâr yn is-gadeirydd partneriaethau Ceredigion a Sir Gâr. Mae'r rolau hyn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y partneriaethau cyfagos, ac maent yn caniatáu ar gyfer rhannu arfer effeithiol a dosbarthiadau ar hyd y ffin rhwng Sir Gâr a Cheredigion. Mae hyn yn helpu sicrhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu a chynyddu'r cynnig i ddysgwyr tra'n atal dyblygu diangen.

Mae'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Ngheredigion wedi datblygu cylch gorchwyl a threfniadau llywodraethu clir ac addas. Mae aelodau'r bartneriaeth yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tymor. Ceir agendâu clir ar gyfer cyfarfodydd ac mae cofnodion yn cofnodi pwyntiau allweddol, camau gweithredu, graddfeydd amser a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu. I gyflawni'r camau gweithredu y mae'r bartneriaeth wedi'u gosod iddi hi ei hun, mae'n gweithredu grwpiau 'gorchwyl a gorffen', ac yn monitro'u cynnydd yn ofalus.

## A2. Datblygu dull partneriaeth ar gyfer hunanwerthuso a monitro ansawdd strwythuredig er mwyn cyrraedd targedau a chofnodi effaith

Yn dilyn ei harolygiad, lluniodd y bartneriaeth gynllun gweithredu i ymateb i'r chwe argymhelliad mewn trefn briodol. Ar ôl sefydlu gweledigaeth ar y cyd a chynllun strategol i ddechrau, yn nhymor yr hydref 2024, dechreuodd y bartneriaeth weithio i ddatblygu dull partneriaeth ar gyfer hunanwerthuso, yr oedd proses ansawdd a monitro strwythuredig yn sail iddo.

Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu grŵp 'gorchwyl a gorffen' i archwilio sut gall ddatblygu dulliau effeithiol o werthuso cynnydd dysgwyr a'u profiadau dysgu ar draws y bartneriaeth. Fel cam cyntaf, a thrwy ymgynghori â Phartneriaeth Gwynedd a Môn sydd wedi defnyddio'r offeryn i gefnogi gwerthuso eu Partneriaeth eu hunain, cytunwyd y byddai pob partner yn defnyddio Offeryn Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer Arfer a Chyflawni Effeithiol i werthuso cydweithio partneriaid o safbwynt pob un ohonynt. Datblygwyd yr offeryn hwn ar y cyd â phartneriaethau dysgu oedolion ledled Cymru a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Ar yr un pryd, mae partneriaid wedi dechrau rhannu'r dulliau y maent yn eu defnyddio i gyflawni gwahanol agweddau ar werthuso. Er enghraifft, mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gâr wedi rhannu'r templed hunanwerthuso y mae'n ei ddefnyddio, tra bod adran Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth wedi rhannu ei thempledi gwerthuso dysgwyr. Yn ychwanegol, mae Coleg Ceredigion/Coleg Sir Gâr wedi rhannu'r system y mae'n ei defnyddio i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu. Hyd yma, mae pob aelod o'r bartneriaeth wedi cynnal a dadansoddi arsylwadau o ddysgu ac addysgu gan ddefnyddio'r dulliau y maent yn eu cymhwyso fel arfer. Pan mae arweinwyr wedi nodi arfer aneffeithiol, maent wedi rhoi cymorth i diwtoriaid, ac mae arfer y tiwtoriaid wedi gwella.

Adeg yr ymweliad monitro, mae'r bartneriaeth yn aros i ddata wedi'i wirio gael ei ddychwelyd i gwblhau dadansoddiad o waith y flwyddyn ddiwethaf a chreu cynllun datblygu ansawdd ar gyfer y bartneriaeth gyfan gyda thargedau priodol ar gyfer y flwyddyn 2025-2026.

### A3. Sicrhau bod darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn gallu cael at drosolwg o holl gynnig cyrsiau'r bartneriaeth a'i llwybrau dilyniant yn hawdd

Mae'r bartneriaeth yn recriwtio dysgwyr trwy amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, fel Wythnos Addysg Oedolion, diwrnodau agored colegau, a digwyddiadau ledled y sir fel sioeau amaethyddol. Ar hyn o bryd, mae darparwyr yn gweithredu stondinau darparwyr unigol mewn digwyddiadau, ond maent hefyd yn cyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth partner arall, lle bo'n briodol. Yn ychwanegol, caiff cyrsiau eu hyrwyddo trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol busnesau lleol a thrwy arfer arloesol defnyddio llysgenhadon dysgwyr sy'n cysylltu â dysgwyr i rannu profiadau a hysbysebu cyrsiau. Mae arlunwyr, ffotograffwyr a beirdd adnabyddus lleol yn cynnal cyrsiau mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n boblogaidd iawn, ac maent yn hyrwyddo dysgu gydol oes ar draws y gymuned. Mae adran farchnata Prifysgol Aberystwyth wedi creu taflenni defnyddiol am gyrsiau byr hygyrch a fforddiadwy y maent yn eu cynnig, sy'n cwmpasu'r celfyddydau, ieithoedd a datblygiad proffesiynol.

Gall darparwyr symud ymlaen mewn darpariaeth darparwr unigol neu mewn darparwyr eraill mewn amrywiaeth o ffyrdd. Caiff dysgwyr ar gyrsiau cyflogadwyedd o fewn darpariaeth y Cyngor eu cyfeirio ar gyfer dosbarthiadau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol a ddarperir gan y bartneriaeth. Gall dysgwyr symud ymlaen i'r coleg i ddilyn cyrsiau TGAU. Fodd bynnag, mae gostyngiad diweddar mewn cyllid i ddarpariaeth ran-amser addysg bellach yn creu her wrth ehangu'r cynnig i ddysgwyr cymunedol a rhan-amser. Mae ychydig o ddysgwyr rhan-amser colegau yn symud ymlaen i ddilyn llwybrau addysg uwch, yn bennaf ar gyfer cyrsiau celf a'r proffesiynau iechyd.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda thiwtoriaid ar draws darparwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd dilyniant er mwyn iddynt allu cynghori a'u hargymell i ddysgwyr.

Caiff dilyniant ei gofnodi gan ddarparwyr unigol ar hyn o bryd. Bwriedir y bydd system gwybodaeth reoli newydd Dysgu Bro yn galluogi'r bartneriaeth i gael golwg fwy strategol ar gynnydd dysgwyr o ddarpariaeth sylfaenol i ddarparwyr eraill yn y dyfodol. Mae'r awdurdod lleol wedi dangos ei ymrwymiad i ddysgu oedolion yn y gymuned trwy ddarparu cyllid ychwanegol i ddatblygu nodweddion ychwanegol i'r system gwybodaeth reoli i hwyluso casglu data a rheoli ansawdd sydd wedi'i deilwra i ddysgu oedolion yn y gymuned.

## A4. Gweithredu systemau a phrosesu effeithiol ar draws y bartneriaeth i gefnogi ac olrhain cynnydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae gan bob un o'r partneriaid gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) dynodedig erbyn hyn.

Mae partneriaid wedi trafod eu polisïau a'u systemau ADY unigol. Mae arweinwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn yr awdurdod lleol wedi ymgynghori a meithrin cysylltiadau cryf â'r Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth ADY ehangach yn yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol wedi llunio crynodeb o'u safon arfer gynhwysol o ran cefnogi oedolion sy'n ddysgwyr ag ADY, sydd ar gael i ddysgwyr ar wefan yr awdurdod lleol. Gall tiwtoriaid fynd at gopïau o'r safon arfer gynhwysol lawn a chryno.

Mae partneriaid yn cofnodi gwybodaeth am ADY a ddatgelwyd gan ddysgwyr o'u ffurflenni cofrestru. Mae partneriaid yn coladu'r wybodaeth yn eu sefydliadau unigol i ddeall graddau a natur y cymorth sydd ei angen.

Mae gan bartneriaid ystod dda o adnoddau y gallant helpu dysgwyr ag ADY gyda nhw i fynd i'w dosbarthiadau a gweithio'n haws. Pan fydd dysgwyr yn hunan-nodi bod ganddynt ADY, caiff tiwtoriaid eu gwneud yn ymwybodol o anghenion dysgwyr ac maent yn olrhain eu cynnydd. Gofynnir i diwtoriaid fod yn effro i'r dysgwyr hynny nad ydynt efallai'n hunan-nodi bod ganddynt ADY, a thrafod y mater yn sensitif gyda'r dysgwr i'w helpu i fanteisio ar gymorth ychwanegol pe bai'r dysgwr yn dymuno gwneud hynny.

Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn cael hyfforddiant i gefnogi dysgwyr ag ADY. Er enghraifft, trefnodd y bartneriaeth hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid yn canolbwyntio ar niwroamrywiaeth, ac estynnwyd gwahoddiad i diwtoriaid o bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Sir Gâr iddo. Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar ddau achlysur ar wahanol amseroedd fel y gallai cynifer o diwtoriaid â phosibl fynychu.

Mae adolygu ymateb cyffredinol y bartneriaeth i ADY bellach yn rhan o drafodaeth reolaidd yng nghyfarfodydd y bartneriaeth.

## A5. Sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i weithio tuag at achrediad neu gymwysterau, lle bo'n briodol

Gweithredodd is-bennaeth Coleg Ceredigion/Coleg Sir Gâr yn gyflym ar yr argymhelliad hwn, ac erbyn hyn, mae holl ddysgwyr Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn gweithio tuag at gymhwyster priodol.

Mae dysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn aml yn dilyn unedau Agored. Defnyddiodd y bartneriaeth gyllid Lluosi yn effeithiol i ddatblygu ystod o gyrsiau yr ymgorfforir unedau bach o achrediad rhifedd a TGCh iddynt. Mae tiwtoriaid wedi hyfforddi ac wedi ymgymryd â'r her i gyflwyno unedau lluosog a gwahanol i grwpiau o ddysgwyr. Maent yn cynnig dysgu personoledig, lle mae dysgwyr yn aml yn cyflawni tair uned wahanol yn ystod un cwrs, oherwydd ar ôl i ddysgwyr wella'u hyder a'u hunan-barch trwy ddysgu cymunedol, maent yn awyddus i dderbyn achrediad am y medrau maent yn eu datblygu. Mae dysgwyr yn cronni banciau o unedau er mwyn iddynt allu symud ymlaen i ddilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Ceir cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen i'r coleg ar gyfer cymwysterau Saesneg a mathemateg TGAU. Yn ychwanegol, mae'r brifysgol yn cynnig cymwysterau sydd gyfwerth â Saesneg a mathemateg i gynorthwyo dysgwyr i gael mynediad at gyrsiau addysg uwch.

Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau cyflogadwyedd yn dilyn cymwysterau yn gysylltiedig â gwaith, fel y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ryngwladol (ICDL). Mae'r bartneriaeth yn gweithio i ddarparu cyfle i ddilyn cymwysterau penodol i ymateb i'r galw gan ddysgwyr. Er enghraifft, mae Canolfan Gadwraeth Fferm Denmark yn cynnig cymwysterau amaethyddol LANTRA i ddysgwyr.

Caiff pob un o'r dysgwyr ar gyrsiau dysgu gydol oes Prifysgol Aberystwyth gyfleoedd i ennill pwyntiau casglu a throsglwyddo credydau (CAT) ar ôl iddynt gwblhau modiwl sy'n gallu arwain at Dystysgrif Addysg Uwch os ydynt yn dewis hynny.

## A6. Cynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg fanteisio ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at yr argymhelliad hwn. Serch hynny, mae annog dysgwyr i ddysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn her barhaus.

Mae'r bartneriaeth wedi cryfhau cysylltiadau â sefydliadau Cymraeg, fel yr Urdd, Menter Iaith a Ffermwyr Ifanc i ehangu arlwy'r ddarpariaeth i alluogi mwy o ddysgwyr i ddysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Coleg Ceredigion yn goleg dwyieithog ac yn cynnig Saesneg a mathemateg TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod adran Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth yn darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg sy'n rhad ac am ddim i siaradwyr Cymraeg.

Gwnaeth Dysgu Bro ymdrechion cadarnhaol i gynyddu'r arlwy cyfrwng Cymraeg trwy ddarparu cyfres o ddigwyddiadau rhagflas mewn lleoliadau amrywiol ledled y sir, gan gynnwys gwneud cacen Nadolig lle bu pedwar o fynychwyr. Mae'r bartneriaeth wedi cynnal cyrsiau dwyieithog yn llwyddiannus, fel 'Cyflwyniad i iPad' sydd bellach wedi dod yn gwrs TG wythnosol yn Llandysul, a chwrs rhifedd a chrefftau a gynhelir mewn cydweithrediad â Menter Iaith a ddarparodd y cymorth dwyieithog. Roedd cwrs trefnu blodau a ddarparwyd ar y cyd â Merched y Wawr yn llwyddiannus iawn.

Mae'r bartneriaeth wedi ymateb yn gadarnhaol i geisiadau dysgwyr am ddarpariaeth yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd dysgwyr yr hoffent weld cwrs am ddiogelwch ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni chofrestrodd unrhyw ddysgwyr. Gofynnodd dysgwyr am gwrs rhifedd dwyieithog i hyfforddi trysoryddion sefydliadau, a threfnodd y bartneriaeth ddarparu'r cwrs hwn mewn tri lleoliad ledled y sir, ond un dysgwr yn unig a gofrestrodd.

Mae aelodau'r bartneriaeth wedi trafod y rhesymau pam mae dysgwyr yn amharod i fynychu dosbarthiadau dwyieithog neu ddosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn teimlo bod llawer o ddysgwyr yn hapus i siarad Cymraeg, ond yn amharod i ddefnyddio'u medrau ysgrifennu Cymraeg. Mae'r bartneriaeth yn bwriadu parhau i archwilio posibiliadau â'u partneriaid ehangach a datblygu medrau Cymraeg staff presennol trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025